Comisiwn Iechyd a Diogelwch

Strategaeth ar gyfer Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle ym Mhrydain Fawr hyd 2010 a'r tu hwnt

Yn ystod yr Haf, roedd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi ymgynghori ag amrywiaeth eang o randdeiliaid ar rai o'r heriau a wynebir gan y system iechyd a diogelwch ar ddechrau'r 21ain ganrif. Mae eu barn wedi ein galluogi ni, y Comisiwn Iechyd a Diogelwch (HSC), i wneud cynigion pendant ar gyfer newid ac mae'r rhain bellach wedi'u nodi yn y ddogfen hon.

Mae hon yn strategaeth arfaethedig newydd ar gyfer y system iechyd a diogelwch hyd 2010 a'r tu hwnt ac rydym yn dymuno gweld iechyd a diogelwch yn gonglfaen cymdeithas waraidd. Ond mae gwaith i'w wneud ar y manylion a throi'r strategaeth hon yn gynllun busnes.

Er mwyn ein helpu i gyflawni hyn, croesawn eich sylwadau. Mae ffurflen adborth ar dudalen 11 a gofynnwn i chi ei dychwelyd atom **erbyn 1 Rhagfyr fan bellaf.**

RHAGAIR Y CADEIRYDD

Mae'r strategaeth hon yn adeiladu ar lwyddiant. Mae gan Brydain Fawr un o'r cofnodion iechyd a diogelwch gorau yn y byd. Mae pob rheswm gennym i ymfachïo yn hynny. Ond, mewn byd sy'n newid, ni allwn sefyll yn ein hunfan. Lle y bo'n briodol, rhaid i ni newid – a newid yn radical, os yw hynny'n angenrheidiol – er mwyn parhaui fod yn effeithiol ac yn berthnasol.

Bydd HSC yn parhau i arwain y newid hwnnw drwy nodi barn gyffredin o'r hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni, pam, a sut rydym yn bwriadu ei gyflawni. Ein rôl yw hyrwyddo ac arwain y strategaeth. Cychwynnwyd y broses hon gan '*Adfywio Iechyd a Diogelwch*', a lansiwyd ym Mehefin 2000. Dechreuodd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch edrych y tu hwnt i'w fusnes ei hun i'r system iechyd a diogelwch yn gyffredinol. Pennodd dargedau yr ydym yn parhau i fod yn ymrwymedig iddynt, a phwysleisiodd gyflawni nodau drwy weithredu rhaglenni. Mae'r rhain yn parhau i fod yn ddilys a chânt eu hymgorffori yn yr hyn a gynigiwn yn awr.

Yn ogystal, mae'r strategaeth newydd yn cydnabod na all yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac awdurdodau lleol (ALl) gyflawni popeth. Bydd yn rhaid i rai o'r pethau y maent yn eu gwneud yn awr gael eu gwneud yn wahanol yn y dyfodol, 'neu beidio â'u gwneud o gwbl'. Mae angen iddynt ganolbwyntio ar ganlyniadau gan roi ystyriaeth i'r risgiau, i drefnu eu hunain y tu ôl i nifer cyfyngedig o raglenni gweithgarwch gydag adnoddau digonol a nodau a cherrig milltir hysbys.

Mae hyn yn golygu y caiff adnoddau eu defnyddio'r effeithlon ac yn effeithiol drwy dargedu gwell, polisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth a mwy o werthusiad o'r hyn a wneir. Yn ogystal, mae'n golygu datblygu gwell dealltwriaeth, dibyniaeth ac ymddiriedaeth mewn eraill a, gyda hwy, datblygu ymagweddau newydd ac arloesol. Os byddwn yn canfod na all ein hamcanion strategol gael eu cyflawni o fewn ein fframwaith cyfreithiol presennol, ni fyddwn yn osgoi ceisio cefnogaeth Weinidogol a Seneddol ar gyfer newid.

Mae dadleuon moesol, cymdeithasol, busnes ac economaidd cryf dros system iechyd a diogelwch sydd wedi'i chynllunio a'i gweithredu'n gywir. Bydd y strategaeth hon yn galluogi iechyd a diogelwch yn y gweithle i wneud cyfraniad cynyddol bwysig i'r agenda ehangach mewn meysydd megis:

- cyflogaeth a chynhyrchiant– drwy gadw'r gweithlu yn iach ac yn y gwaith;
- addysg – drwy sicrhau dealltwriaeth briodol o reoli risgiau o oedran cynnar, sgil sydd â manteision mewn sawl agwedd ar fywyd;
- iechyd ac adsefydlu – drwy gyfrannu at iechyd a lles y genedl ac ymdrin ag anghydraddoldebau iechyd;
- diwygio gwasanaethau cyhoeddus – drwy leihau salwch yn y sector cyhoeddus ac felly gwella ei allu i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd.

Cymeradwyaf y strategaeth hon i chi ac edrychaf ymlaen at dderbyn eich ymateb iddi. Ein tasg nesaf fydd cyflwyno'r strategaeth i'r llywodraeth a cheisio sicrhau cytundeb arni. Mae'r Comisiwn yn cydnabod mai'r her allweddol yw ei chyflawni a byddwn yn parhau i weithio gyda chi ar y broses fanwl o'i rhoi ar waith.

Bill Callaghan
Cadeirydd y Comisiwn Iechyd a Diogelwch

EIN STRATEGAETH 7 PWYNT

- **Mae'r strategaeth yn ymwneud â'r system iechyd a diogelwch ym Mhrydain Fawr gyfan, nid dim ond HSC, HSE ac ALl. Rôl HSE yw hybu, cyd-drefnu, archwilio, rhoi sicrwydd, a chymryd camau gweithredu priodol pan fydd pethau'n mynd o'u lle – gan gadw ei gyfranogiad ar gyfer yr hyn y gall ef yn unig ei wneud.**

- **Mae HSE yn cydnabod bod yn rhaid iddo newid. Ni fydd mwy o'r un peth, hyd yn oed o'i gyflawni'n fwy effeithlon, yn ymdrin â materion iechyd neu'r byd gwaith sy'n newid. Mae angen i ni gryfhau ein cysylltiadau ar gyfer cadw pobl mewn gwaith, neu eu cynorthwyo i ddychwelyd i'r gwaith.**

- **Bydd rheoli cysylltiadau ac enw da yn ymyriadau sylweddol ynddynt eu hunain ac yn hanfodol i ddadlau'r achos mai galluogwr, ac nid rhwystr yw iechyd a diogelwch.**

- **Mae angen dulliau newydd arnom i helpu cwmnïau, bach a mawr. Bydd HSE yn symud i ffwrdd o'r rhagdybiaeth awtomatig o gynhyrchu arweiniad ysgrifenedig cyffredinol tuag at gymorth a chyngor penodol, wedi'i dargedu a'i gyfeirio at y meysydd sydd â'r angen mwyaf. Oherwydd bod rhanddeiliaid yn dweud wrthym bod yn rhaid i ni wahanu gorfodaeth a chymorth a chyngor er mwyn bod yn effeithiol, caiff llawer o hyn ei gynhyrchu neu ei ddosbarthu gan eraill yn hytrach na chan HSE.**

- **Mae hon yn strategaeth am ddewisiadau anodd a blaenoriaethau. Mae cyfyngiadau ar ein hadnoddau. Bydd HSE, gan weithio gydag awdurdodau lleol, yn datblygu strategaeth ymyriadau newydd. Byddwn yn rhoi blaenoriaeth i'r gweithgareddau hynny y gall yr awdurdodau gorfodi yn unig eu cyflawni a byddwn yn sicrhau y caiff camau gweithredu priodol eu cymryd pan fo pethau'n mynd o'u lle. Lle y gellir sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli'n gywir, ni fyddwn yn ymyrryd.**

- **Rydym yn dymuno gweld datblygiad cyngor a chymorth iechyd a diogelwch galwedigaethol y tu allan i HSE a hynny'n genedlaethol er mwyn atal salwch, hybu adsefydlu, a sicrhau bod pobl yn dychwelyd i'r gwaith yn gyflymach.**

- **Lle y bo'n briodol, ni fyddwn yn osgoi ailgynllunio sefydliadau iechyd a diogelwch a'u priod rolau wrth gyflawni unrhyw un o'r uchod.**

Mae cyd-destun y strategaeth newydd wedi'i nodi ar dudalennau 3 i 5. Mae'r strategaeth ar dudalennau 6 i 8. Mae'r hyn a olygir gan lwyddiant, rolau rhanddeiliaid allweddol a'r hyn sy'n digwydd nesaf ar dudalennau 9 a 10. Ceir ffurflen adborth ar dudalen 11.

CYD-DESTUN

Roedd Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974 yn ddarn o ddeddfwriaeth radical a phellgyrhaeddol. Am y tro cyntaf, sefydlodd ddyletswyddau cyffredinol dros iechyd, diogelwch a lles i bob cyflogwr. Roedd ei ymagwedd o ran pennu nodau yn seiliedig ar gasgliad adroddiad Robens mai'r rhai sy'n creu'r risgiau sy'n gallu eu rheoli orau. Roedd ymgynghori â chyflogeion yn rhan allweddol o'r ymagwedd hon. Sefydlwyd dau gorff allweddol i gydweithio er mwyn datblygu hyn – y Comisiwn Iechyd a Diogelwch (HSC) a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE).

Ar hyn o bryd, mae HSC yn cynnal ac yn noddi ymchwil; hyrwyddo hyfforddiant; darparu gwasanaeth gwybodaeth ac ymgynghori; ac yn cyflwyno cynigion ar gyfer rheoliadau newydd neu ddiwygiedig a chodau ymarfer cymeradwy. Mae HSE yn cynorthwyo HSC yn hyn o beth ac, ar y cyd ag awdurdodau lleol, yn gorfodi'r gyfraith. Mae ein gwaith yn ddibynnol ar ddealltwriaeth dda o wyddoniaeth, technoleg a thystiolaeth. Mae'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth hon yn agored ac ar gael.

Mae'r gyfundrefn hon wedi helpu i gyflawni gostyngiad o ddwy ran o dair yn nifer y marwolaethau yn y gweithle ers yr 1970au.

Y cyd-destun ar gyfer y strategaeth hon yw sut i wneud y broses o reoli risgiau yn berthnasol i'r byd gwaith modern sy'n newid. Ni allwn fyw mewn cymdeithas sy'n rhydd o risgiau ond dylid rheoli risgiau yn gywir. Ers 1974, mae'r gweithle a'r byd o'i amgylch wedi newid yn sylweddol. Mae llai o gwmnïau mawr a llawer mwy o gwmnïau bach – mae dros 90% o'r 3.5 miliwn neu fwy o fusnesau yn cyflogi llai na 10 person. Bu'r sector gweithgynhyrchu yn agored i gystadleuaeth ryngwladol ddwys. Mae'r sector gwasanaeth wedi dod yn bwysicach. Mae technoleg gwybodaeth wedi dod yn rhan o'n bywydau bob dydd yn y gwaith ac yn y cartref. Mae agweddau'r cyhoedd tuag at risgiau ac unioni cam, bai ac iawndal wedi newid. Mae'r heriau newydd o fewn iechyd a diogelwch bron i gyd yn gysylltiedig ag iechyd yn hytrach na diogelwch a daw llawer o'r pwysau ar gyfer newid yn ein deddfwriaeth o Ewrop yn hytrach nag o gartref. Ac, yn hollbwysig, mae'r gyfradd gwelliant mewn diogelwch bellach wedi arafu.

Mae hyn wedi ein harwain i ailarchwilio ein hymagwedd, i sicrhau y bydd y pethau yr ydym yn eu gweithredu a'r ffordd yr ydym yn eu gweithredu yn berthnasol ar gyfer y dyfodol. Rydym wedi dod i rai casgliadau pwysig.

<u>Elfennau allweddol ar gyfer newid</u>

- Ar hyn o bryd, nid oes cyfeiriad cydlynus i'r system iechyd a diogelwch gyffredinol. Ni all/ni ddylai'r HSC, HSE ac ALl wneud y cyfan. Cytunir bod angen pennu ffiniau a chyfeiriad.

- Mae adnoddau'r HSE a'r ALl wedi eu gwasgaru'n rhyw denau ac mae angen eu targedu i'r man lle y gallant sicrhau'r effaith fwyaf.

- Mae'r HSC, HSE a'r ALl wedi gwneud gwaith arbennig ar ddiogelwch. Oherwydd yr economi sy'n newid, mae gwaith enfawr i'w wneud ar iechyd. O'r 40 miliwn o ddyddiau a gollwyd oherwydd salwch galwedigaethol ac anafiadau yn 2001/2, priodolwyd 33 miliwn i salwch. Mae ein hymyriadau traddodiadol yn llai effeithiol o ran ymdrin ag iechyd nag ymdrin â diogelwch.

- Mae HSE ac ALl yn codi ofn ar nifer o gwmnïau. Mae'r ofn hwn yn eu cymell i geisio cymorth ond nid oes unman y maent yn fodlon cysylltu ag ef i geisio'r cymorth hwn.

- Os ydym yn dymuno sicrhau manteision hirdymor, mae angen i bobl roi eu calonnau a'u meddyliau yn y gwaith, nid derbyn y sefyllfa'n groes i'w hewyllys.

- Mae'n rhaid i'n strategaeth fynd i'r afael â phum mater strategol sylweddol:

    - iechyd;

    - ein rôl wrth amddiffyn a diogelu'r cyhoedd;

    - rôl ALl;

    - economi sy'n newid mewn byd sy'n newid;

    - rheoli busnes ac enw da.

Gweledigaeth newydd, cenhadaeth newydd a nodau uchel

Yng ngoleuni'r uchod, sefydlasom gyfeiriad newydd a'i gyfathrebu.**Gweledigaeth** HSC yw ennill cydnabyddiaeth o iechyd a diogelwch fel conglfaen cymdeithas waraidd a, thrwy hynny, gyflawni cofnod o iechyd a diogelwch yn y gweithle sy'n arwain y byd.

Cenhadaeth HSC/E, gan weithio gydag ALl, yw diogelu iechyd a diogelwch pobl drwy sicrhau bod risgiau yn y gweithle sy'n newid yn cael eu rheoli'n gywir.

Nodau parhaus HSC/E:

- diogelu pobl drwy ddarparu gwybodaeth a chyngor; hyrwyddo a sicrhau system o reoleiddio sy'n pennu nodau; ymgymryd â gwaith ymchwil a'i annog a gorfodi'r gyfraith ble y bo hynny'n angenrheidiol;
- dylanwadu ar sefydliadau er mwyn iddynt goleddu safonau uchel o iechyd a diogelwch a chydnabod y buddiannau cymdeithasol ac economaidd;
- gweithio gyda busnesau i atal methiannau trychinebus mewn diwydiannau lle ceir peryglon difrifol; a
- ceisio gwneud y defnydd gorau posibl o adnoddau i gyflawni ein cenhadaeth a'n gweledigaeth.

Nodau newydd HSC/E**:**

- datblygu ffyrdd newydd i sefydlu a chynnal diwylliant iechyd a diogelwch effeithiol mewn economi sy'n newid, fel bod yr holl gyflogwyr yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif, bod y gweithlu yn cyfranogi'n llawn ac y rheolir risgiau yn gywir;
- gwneud mwy i fynd i'r afael â materion iechyd newydd sy'n ymwneud â gwaith;
- cyflawni lefelau uwch o gydnabyddiaeth a pharch ar gyfer iechyd a diogelwch fel rhan annatod o sector busnes a sector cyhoeddus modern, cystadleuol ac fel cyfraniad i gyfiawnder a chynhwysiant cymdeithasol; a
- dangos arfer gorau'r sector cyhoeddus wrth reoli ein hadnoddau.

Datblygu strategaeth newydd

Yna dechreuasom waith ar sefydlu strategaeth newydd fel sail i'r cyfeiriad newydd hwn. Cynhaliwyd tri ymgynghoriad allanol byr rhwng Mehefin ac Awst: ymgynghoriad ysgrifenedig rhwng rhanddeiliaid traddodiadol; digwyddiadau rhanbarthol o wahanol fathau yn addas ar gyfer amgylchiadau lleol ac wedi'u hwyluso gan Gyfarwyddwyr Rhanbarthol HSE a'r Cyfarwyddwyr ar gyfer Cymru a'r Alban; a nifer fach o grwpiau ffocws wedi'u targedu ymhlith 'grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd' megis gweithwyr nad ydynt yn rhan o undeb a chwmnïau bach. Derbyniwyd dros 250 o ymatebion gan randdeiliaid 'traddodiadol', a cheir manylion am y rhain ar wefan HSE. Yn ogystal, cynhaliwyd trafodaethau gyda staff HSE.

Gellir crynhoi canlyniadau'r ymgynghoriadau hyn fel a ganlyn:

- ar y cyfan, ymddengys fod cytundeb (gydag ambell i wrthwynebiad cryf, yn bennaf gan y rhai sy'n credu y dylai'r arian ar gyfer gorfodi gael ei gynyddu'n sylweddol) bod y pum mater strategol a nodwyd gan HSC yn gywir. Ond nid oes cytundeb ar yr hyn y dylid ei wneud ynglŷn â hwy;

- roedd 80% o'r ymgynghoreion traddodiadol wedi cynnig barn ynglŷn â lle y dylid gwneud mwy. Cynigiodd 50% farn ar ble y gallai HSE wneud llai, ond nid oedd consensws;

- roedd ymgynghoreion traddodiadol naill ai'n hoff o'n hamrywiaeth o gyhoeddiadau, neu heb wrthwynebiad iddynt. Nododd cyflogeion oedd yn anodd eu cyrraedd nad oeddent yn hoff o'n cyhoeddiadau, yn arbennig y rhai maith, ac roeddent o'r farn eu bod yn rhy gymhleth ac yn cymryd gormod o amser i'w darllen;

- nododd grwpiau anodd i'w cyrraedd eu bod yn dymuno cael cefnogaeth a chymorth yn hytrach nag arweiniad ysgrifenedig. Roedd gan nifer amheuon ynglŷn â chysylltu â gorfodwyr am gymorth am bod arnynt ofn "tynnu rhagor o helynt yn eu pennau". Ymddengys fod ymwybyddiaeth isel o'r gwasanaethau cyngor cyfrinachol presennol megis Llinell Wybodaeth HSE;

- nododd grwpiau anodd i'w cyrraedd mai ofn yw'r cymhelliant allweddol dros weithredu ar faterion yn ymwneud ag iechyd a diogelwch. Ofn gorfodaeth yw'r prif gymhelliant, ond mae ofn cael eu herlyn yn amlwg hefyd. Ategir hyn gan ganfyddiadau ymchwil cyfyngedig cynharach;

- awgrymodd trafodaeth gyda staff HSE fod llawer iawn o gefnogaeth i ddarparu gwasanaeth cymorth a chyngor a ganfyddir fel un sy'n annibynnol ar y rheoleiddiwr.

Mae tystiolaeth yn cael ei chasglu o amrywiaeth eang o adnoddau er mwyn nodi'r ymyriadau iechyd a diogelwch sy'n gweithio orau mewn gwahanol sefyllfaoedd. Mae bylchau yn ein gwybodaeth yn cael eu nodi a'u hunioni. Mae angen gwaith pellach i roi gwybodaeth gyfredol yn ei chyd-destun, yn arbennig, ar y gymysgedd fwyaf priodol o ymyriadau ar gyfer economi a gweithlu sy'n newid. Dangosodd y gwaith hwn yn benodol bod:

- astudiaethau HSE sydd ar gael yn dangos bod amrywiaeth o ymyriadau (arolygiadau/gorfodi, gwybodaeth/cyngor ac ymgyrchoedd) wedi cael effaith mewn amgylchiadau penodol. Ar y cyfan nid ydynt yn cymharu effaith a gwerth am arian gwahanol fathau o ymyriadau;

- mae astudiaethau amrywiol yn nodi bod cyflogwyr yn cael eu cymell i newid arferion busnes er mwyn gwella iechyd a diogelwch yn bennaf er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth. Gall ofn gorfodaeth/cosbau atal hyn mewn rhai amgylchiadau;

- mae tystiolaeth bod cyngor a gwybodaeth wyneb yn wyneb yn fwy gwerthfawr na thaflenni a llythyrau drwy'r post. Fodd bynnag, mae busnesau bach a chanolig eu maint, yn arbennig, wedi nodi amharodrwydd i gysylltu â HSE am gymorth os bydd hyn yn debygol o arwain at ymweliad gorfodi.

Ond mae angen mwy o wybodaeth arnom ynglŷn â'r hyn sy'n gweithio. Mae HSE wedi gwneud buddsoddiad sylweddol i wella ansawdd ei raglen werthuso ac mae ymchwil pellach ar waith.

Mae gwaith yr HSE yn cael ei drefnu yn rhaglenni strategol er mwyn cynorthwyo'r broses o reoli cyflwyno gwasanaethau, dyrannu adnoddau ac eglurder blaenoriaethau.

EIN STRATEGAETH

Mae'r strategaeth yn ymwneud â'r system iechyd a diogelwch ym Mhrydain Fawr gyfan, nid dim ond HSC, HSE ac ALl. Rôl HSE yw hybu, cyd-drefnu, archwilio, rhoi sicrwydd, a chymryd camau gweithredu priodol pan fydd pethau'n mynd o'u lle – gan gadw ei gyfranogiad ar gyfer yr hyn y gall ef yn unig ei wneud.

Dylai'r strategaeth ddiffinio system iechyd a diogelwch y wlad hon ar gyfer y dyfodol. Yn ymarferol, HSC fydd yn berchen ar y weledigaeth, yn ei hyrwyddo a sicrhau ei bod yn digwydd. Ond nid yw'n amlwg a ddylem wneud hyn drwy ein gweithredoedd ein hunain neu weithredoedd HSE ac ALl. Mae'r strategaeth hon yn nodi ein bwriad i ddeall a gwerthfawrogi cyfraniadau ac effaith eraill yn fwy.

Byddai cyfraniad HSE yn cael ei gyfyngu i'r mannau lle mae ganddo'r sgiliau, yr arbenigedd a'r dystiolaeth a lle y byddai ef, yn hytrach nag eraill, yn brif hyrwyddwr ar gyfer newid. Bydd yn rhaid iddo ddatblygu'r rhan hon gan weithio gydag ALl. Bydd ei rôl fel galluogydd a hwylusydd yn cynyddu.

Mae'n rhoi cyfleoedd i'r HSC ddatblygu ein rôl fel mwy o ysgogwyr ac eiriolydd ar gyfer y system gyfan.

Daw'r HSC yn gyfathrebydd ac yn ddylanwadwr cryf, gan anelu at sicrhau bod buddiannau busnes a chymdeithasol iechyd a diogelwch, a rolau'r rheoleiddwyr ac eraill, yn cael eu deall yn well. Bydd yn defnyddio tystiolaeth ystadegol, gwyddonol a thystiolaeth arall yn seiliedig ar ymchwil i hysbysu ac i ddwyn perswâd.

Mae'r strategaeth hefyd yn nodi ein bwriad i ganolbwyntio ar weithgareddau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gwaith a'n bwriad pendant i symud i ffwrdd o feysydd sy'n cael eu rheoleiddio'n well drwy ddulliau eraill – yn cynnwys cyfraith sifil.

Ni fydd HSE yn rhagweithiol wrth orfodi'r meysydd hynny o ddiogelwch cyhoeddus lle nad oes gan eraill gyfrifoldebau rheoliadol neu lle mae atebion cyfreithiol o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle wedi'u defnyddio yn absenoldeb deddfwriaeth fwy penodol. Bydd yn hyrwyddo dadl ynglŷn â lle y mae angen i fylchau gael eu llenwi gan eraill a thrwy ddulliau eraill.

Byddwn yn ystyried ble a sut y gall HSC/HSE gryfhau'r system ac ychwanegu gwerth ati, cydnabod ei bylchau a'i chyfyngiadau, a chynnal trafodaethau ag eraill o ran sut i'w llenwi. Ond bydd HSE ac ALl yn parhau i orfodi'r gyfraith, yn unol â Pholisi Gorfodaeth cyhoeddedig HSC.

Mae'r HSE yn cydnabod bod yn rhaid iddo newid. Ni fydd mwy o'r un peth, hyd yn oed os caiff ei gyflawni'n fwy, yn ymdrin â materion iechyd neu'r byd gwaith sy'n newid. Mae angen i ni gryfhau ein cysylltiadau i gadw pobl mewn gwaith neu eu cynorthwyo i ddychwelyd i'r gwaith .

Gwnaed datblygiadau sylweddol wrth amlygu'r rhesymau dros fethiannau diogelwch drwy ddefnyddio dyfeisiau a dulliau presennol. Ond mae'r canlyniadau wedi arafu ac mae'n rhaid i ni sicrhau dylanwad go iawn ar faterion sy'n ymwneud ag iechyd, yn arbennig y rhai newydd sy'n ymddangos. Mae'n rhaid sicrhau bod terfyn naturiol i effeithiolrwydd yr ymagweddau presennol mewn amgylchedd busnes ac economi sy'n newid yn gyson ac yn gyflym. Os nad ydym wedi cyrraedd y pwynt hwnnw eisoes, mae'n sicr y byddwn yn gwneud hynny. Roedd materion pwysig a'r ffyrdd o'u datrys yn y gorffennol yn glir. Mae'r materion pwysig heddiw yn llai amlwg.

Nid ydym yn gweld system reoleiddio newydd fel yr ymateb awtomatig.

Bydd angen ymagweddau newydd ac arloesol er mwyn sicrhau datblygiadau pellach, a dealltwriaeth glir o'r dystiolaeth i ddangos eu budd.

Bydd rheoli cysylltiadau ac enw da yn ymyriadau sylweddol ynddynt eu hunain ac yn hanfodol ar gyfer dadlau'r achos mai galluogwr, ac nid rhwystr yw iechyd a diogelwch.

Drwy'r HSE, rydym wedi creu un o'r peiriannau darparu gwybodaeth mwyaf yn y Llywodraeth. Yn ei amser, mae wedi ein gwasanaethu'n dda wrth gyfathrebu negeseuon. Mae lle i wybodaeth o hyd, ond efallai fod eraill mewn sefyllfa well na ni i'w darparu.

Yn aml iawn mae ein neges o reoli risgiau yn cael ei ddrysu gyda dymuniad i osgoi risgiau. Mae cynulleidfaoedd wedi dod yn fwy soffistigedig ac mae angen iddynt gymryd rhan mewn deialog yn hytrach na siarad â hwy yn unig. Cydnabyddwn y bydd y cyfryngau yn herio rheoleiddio beichus a llawdrwm. Mae angen i ni ddefnyddio'r amrywiaeth lawn o gyfryngau, nid y gair ysgrifenedig yn unig.

Daw HSC yn fwy rhagweithiol wrth sicrhau parch ar gyfer y system iechyd a diogelwch a daw HSE yn fwy cadarn wrth amddiffyn ei enw da a barn dda y cyhoedd o ran materion iechyd a diogelwch.

Mae'n rhaid i HSE ddod yn fwy medrus wrth ymdrin â gwahanol gynulleidfaoedd mewn ffyrdd gwahanol er mwyn trosglwyddo'r neges iechyd a diogelwch gywir.

Mae angen dulliau newydd arnom i helpu cwmnïau, bach a mawr. Bydd HSE yn symud i ffwrdd o'r rhagdybiaeth awtomatig o gynhyrchu arweiniad ysgrifenedig cyffredinol tuag at gymorth a chyngor penodol, wedi'i dargedu a'i gyfeirio at y meysydd sydd â'r angen mwyaf. Oherwydd bod rhanddeiliaid yn dweud wrthym bod yn rhaid i ni wahanu gorfodaeth a chymorth a chyngor er mwyn bod yn effeithiol, caiff llawer o hyn ei gynhyrchu neu ei ddosbarthu gan eraill yn hytrach na chan HSE.

Mae busnesau yn gweld HSE fel sefydliad o arbenigwyr, sy'n siarad ag arbenigwyr mewn cwmnïau mawr a dyfeisio ymagweddau ac arweiniad ar gyfer yr un arbenigwyr. Maent yn gweld HSE fel corff sy'n gofyn iddynt werthuso a deall eu risgiau tra'n cadw'r hawl i fynegi barn pan aiff yr ymagwedd hon o'i lle. Mae HSE yn ymatal rhag rhoi cyngor penodol iddynt.

Nid sicrhau cymdeithas sy'n rhydd o risgiau yw ein nod, ond cymdeithas lle y caiff risgiau eu gwerthfawrogi, eu deall a'u rheoli'n gywir.

Byddwn yn canfod ffyrdd o wneud asesu risgiau yn berthnasol i bob un o'n rhanddeiliaid, i sicrhau rheoli risgiau synhwyrol ac i symleiddio'r cysyniad ble y bo hynny'n bosibl. Golyga hyn, os oes yna gnewyllyn o fusnesau sy'n ymateb yn well i lefel o gyfarwyddyd, y dylem ei ddefnyddio fel dyfais berthnasol. Mae safonau pennu nodau yn fwy hyblyg ac yn hyrwyddo arloesedd. Ond ni ddylem osgoi rhywfaint o gyfarwyddyd lle y bydd hynny'n wirioneddol angenrheidiol i fusnesau.

Nid yw rhai cwmnïau, yn arbennig cwmnïau llai, yn dymuno cysylltu â HSE oherwydd ofn ac oherwydd nad yw'n siarad yr un iaith â hwy. Yn eu hanfod, nid oes gan gwmnïau llai yr adnoddau rheoli a'r arbenigedd mewnol sydd gan gwmnïau mwy. Ac, oherwydd pwysau eraill arnynt, credant fod gofynion iechyd a diogelwch pellach yn afresymol. Maent yn dweud eu bod yn dymuno cydymffurfio (hyd yn oed os yw hyn y golygu gwneud yr hyn sy'n iawn heb ei ddeall). O ganlyniad, maent yn farchnad sydd heb ei harchwilio sy'n barod i wneud gwelliannau iechyd a diogelwch sylweddol.

Yn naturiol ac yn briodol, bydd arolygwyr y HSE ac ALl yn parhau i gynnig cyngor wrth iddynt gyflawni eu gweithgareddau gorfodi ond mae'r dystiolaeth yn pwysleisio'r angen i ddatblygu sianeli o gymorth a chyngor sydd ar wahân i orfodaeth, ac nid oes rhaid i lawer o hyn gynnwys HSE yn uniongyrchol.

Mae hon yn strategaeth am ddewisiadau anodd a blaenoriaethau. Mae cyfyngiadau ar ein hadnoddau. Bydd HSE, gan weithio gydag awdurdodau lleol, yn datblygu strategaeth ymyriadau newydd. Byddwn yn rhoi blaenoriaeth i'r gweithgareddau hynny y gall yr awdurdodau gorfodi yn unig eu cyflawni a byddwn yn sicrhau y caiff camau gweithredu priodol eu cymryd pan fo pethau'n mynd o'u lle. Lle y gellir sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli'n gywir, ni fyddwn yn ymyrryd.

Rydym yn ymrwymedig i leihau gweithgareddau HSE mewn meysydd lle y cânt yr effaith leiaf a lle y mae gan eraill gyfrifoldebau rheoliadol, er enghraifft, materion sy'n ymwneud â diogelwch y cyhoedd. Adlewyrchir hyn yn ei flaenoriaethau. Bydd HSE yn canolbwyntio ar y meysydd sydd angen mynd i'r afael â hwy fwyaf a chyflawni rhaglenni effeithlon o weithgarwch yn y rhain a byddwn yn gofyn i'r ALl wneud yr un peth.

Bydd HSE yn nodi strategaeth ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth glir a chytuno arni gydag ALl. Bydd y strategaeth yn cydnabod anghenion y farchnad, lleihau dyblygu gwaith, targedu ei ymateb ac yn cynnwys cyfraniadau'r canlynol yn llawn: arolygiad, gorfodaeth, cynrychiolwyr diogelwch y gweithle, yswiriant, arweiniad, cynllun a chymorth.

Bydd HSE yn adolygu ei systemau peryglon difrifol er mwyn sicrhau bod ei ymyriadau'n parhau'n berthnasol ac yn gymesur i natur newidiol y diwydiannau sy'n gysylltiedig â pheryglon difrifol ym Mhrydain Fawr.

Rydym yn dymuno gweld datblygiad cyngor a chymorth iechyd a diogelwch galwedigaethol y tu allan i HSE a hynny'n genedlaethol er mwyn atal salwch, hybu adsefydlu, a sicrhau bod pobl yn dychwelyd i'r gwaith yn gyflymach.

Mae HSE wedi cydnabod yr angen am wahanol sgiliau er mwyn nodi, asesu a rheoli materion iechyd a gwendidau posibl ei ymagweddau presennol. Rydym yn dymuno gweld llawer mwy o bwyslais ar adsefydlu fel cyfraniad i agenda ehangach y llywodraeth. Byddwn yn gweithio gydag eraill – cyflogwyr, y diwydiant yswiriant a phobl broffesiynol ym maes iechyd – er mwyn cyflawni hyn.

Byddwn yn hyrwyddo'r angen am ddatblygu dulliau i alluogi cyngor a chymorth ar iechyd a diogelwch galwedigaethol a chymorth a sicrhau eu bod ar gael i bawb; ac arweiniad i gyflogwyr ar reoli salwch ac adsefydlu galwedigaethol. Byddwn yn rhoi mwy o bwyslais ar rôl iechyd a diogelwch yn y sector cyhoeddus ac ar ran y Llywodraeth fel cyflogwr.

Lle y bo'n briodol, ni fyddwn yn osgoi ailgynllunio sefydliadau iechyd a diogelwch a'u priod rolau wrth gyflawni unrhyw un o'r uchod.

Cawn ein cynorthwyo yn ein gwaith gan drefniadau sefydliadol sydd wedi'u sefydlu'n dda – nifer ohonynt yn dyddio o'r adeg y sefydlwyd y Ddeddf. Mae Pwyllgorau Ymgynghorol sefydlog a Phwyllgor Cydgysylltu Gorfodaeth HSE ac ALl (HELA) yn sail i rolau HSE ac ALl fel gorfodwyr Wrth roi'r newidiadau uchod ar waith, bydd yn rhaid i ni ailedrych ar effeithiolrwydd a gwerth y sefydliadau hyn er mwyn sicrhau eu bod yn addas ar gyfer cyflawni ein dyheadau newydd.

Mae cydnabod cyfraniad pwysig ALl wedi ein harwain i ailystyried y trefniadau partneriaeth presennol. Nid oes rhesymeg barhaus dros y rhaniad presennol o gyfrifoldebau gorfodi. Mae'r trefniadau'n gymhleth, yn peri dryswch ac yn seiliedig ar ffiniau sydd heb berthnasedd yn y byd busnes modern. Byddai parhau i wahaniaethu rhwng priod rolau HSE ac ALl ar y sail hon yn golygu colli cyfle i wella eu cyd gyfraniad i iechyd a diogelwch.

Ein nod yw symud i bartneriaeth gwirioneddol a fynegir mewn dogfen lefel uchel gyda threfniadau gweithio diwygiedig a ardystir gan uwch reolwyr ALl ac arweinwyr gwleidyddol.

Byddai'r bartneriaeth hon yn seiliedig ar ddealltwriaeth o werth ymyriadau lleol o'u cymharu ag ymyriadau canolog gyda chydlyniad ar gyfer y ddwy ymagwedd. Mae model yn ymddangos lle byddai'r sectorau blaenoriaeth a rhai cwmnïau mawr yn elwa ar ymagwedd genedlaethol gydlynus wedi'i chyfeirio drwy raglenni a arweinir gan HSE. Byddai modd mynd i'r afael â'r sectorau sy'n weddill, a'r holl faterion sy'n gysylltiedig â hwy, drwy wneud penderfyniadau lleol ar y cyd a chydweithredu rhwng ALl a HSE gan arwain at rannu gorfodaeth a thargedau y cytunwyd arnynt yn fwy synhwyrol.

LLE RYDYM YN DYMUNO BOD YMHEN 10 MLYNEDD

Byd lle mae iechyd a diogelwch yn gonglfaen cymdeithas waraidd. Mae hyn yn golygu:

- sicrhau bod y targedau *'Adfywio'* wedi'u cyflawni a bod diwylliant o welliant parhaus yn fwy eang;
- sicrhau bod gwell dealltwriaeth o gyfraniad rheolaeth iechyd a diogelwch i gymdeithas. Mae cytundeb cyffredinol yngl n â'r achos economaidd a moesol dros iechyd a diogelwch galwedigaethol ymhlith y partneriaid cymdeithasol a'r cyhoedd yn gyffredinol;
- sicrhau bod asesu risgiau, a chynnwys cyflogeion ac ymgynghori â hwy, yn digwydd yn fwy eang ac nad y rheoleiddwyr fydd prif hyrwyddwyr gwelliant;
- sicrhau bod sianelau ansawdd uchel ar gyfer cymorth a chyngor busnes yn cael eu defnyddio'n dda a bod gan bobl barch mawr tuag atynt.

YR HYN Y GALL HYN EI GYFLEU I'R RHANDDEILIAID ALLWEDDOL

HSC – llais iechyd a diogelwch yr ymddiriedir ynddo, hwylusydd ar gyfer gweithredu, eiriolydd rheoli risgiau synhwyrol yn seiliedig ar enghreifftiau bob dydd, gydag ymagwedd fwy cymhleth wedi'i neilltuo ar gyfer y rhai a all gael budd o'r 'fframwaith goddefgarwch risgiau'.

HSE – datblygu ac ymateb i ddadl gyhoeddus yngl n â rôl rheoleiddiwr mewn byd ac economi sy'n newid. Ac, fel mater o ddewis, canolbwyntio ei ymdrechion ar ymyriadau lle y gallant gael yr effaith fwyaf posibl.

ALl – partneriaid gorfodi cymwys, cyson, ymrwymedig gyda HSE, gan ddatblygu amrywiaeth o wasanaethau i ymdrin â chwmnïau bach.

Gweinidogion –y ffenestr i Whitehall, gan hyrwyddo iechyd a diogelwch ymhlith eu cyd-Aelodau fel cyfraniad at yr agenda ehangach a datblygu gwasanaethau cyhoeddus gwell.

Y gweinyddiaethau datganoledig – ategu fframwaith Prydain Fawr ar gyfer iechyd a diogelwch a nodi'r cysylltiadau a'r dibyniaethau gyda'u cyfrifoldebau datganoledig.

Cyflogwyr – cyflwyno adroddiadau ar berfformiad iechyd a diogelwch yn rheolaidd fel rhan o'u hymrwymiad i gyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol a chysylltu â chynrychiolwyr diogelwch sydd â rôl arweiniol wrth reoli iechyd a diogelwch yn lleol.

Cyflogeion – yn hyddysg ac yn cymryd cyfrifoldeb dros iechyd a diogelwch pobl eraill, yn ogystal â'u hiechyd a'u diogelwch hwy hunain.

Y cyhoedd – deall a chynorthwyo rôl HSC, HSE ac ALl.

Undebau llafur – gweithio gydag eraill er mwyn datblygu arweiniad y tu allan i fframwaith HSE ac i ategu fframwaith cenedlaethol o gynrychiolwyr diogelwch.

Cynrychiolwyr Diogelwch – eu cyfranogiad wrth reoli iechyd a diogelwch lleol yw'r norm.

Cymdeithasau masnach – gweithio gyda chynrychiolwyr cyflogeion i ddatblygu cyngor ac arweiniad sy'n benodol ar gyfer y diwydiant, a chytuno arno a'i gyfleu, a hyrwyddo safonau cyffredin ymysg eu haelodaeth.

Y diwydiant yswiriant – partner gweithredol wrth reoleiddio risgiau busnes drwy fwy o gyfranogiad yn y system a thrwy hyrwyddo cymhellion ariannol.

Y cyfryngau – sylwebyddion hyddysg.

Pobl broffesiynol ym maes diogelwch – mynd â'r ddadl y tu allan i fforymau iechyd a diogelwch prif ffrwd a helpu i ddatrys peth o'r dirgelwch.

Staff HSE ac ALl – yn glir yngl n â'r hyn y maent yn ei wneud, yn peidio â'i wneud, a pham.

BETH FYDD YN DIGWYDD NESAF?

Rydym yn ymrwymedig i gyflwyno ein strategaeth gyffredinol i Weinidogion ar ddiwedd y flwyddyn galendr hon. Bydd gwaith i'w wneud o hyd er mwyn gwireddu'r strategaeth. Ein nod yw paratoi, cyhoeddi ac ymgynghori ar gynllun busnes manwl y flwyddyn nesaf.

FFURFLEN ADBORTH

Enw	
Cyfeiriad	
e-bost	
Sefydliad	
Diwydiant	
Eich rôl – e.e. hunan-gyflogedig, person proffesiynol ym maes iechyd a diogelwch, cyflogwr, cyflogai ac ati.	
Faint o bobl sydd yn eich sefydliad?	

Mae'r strategaeth hon yn cwmpasu nifer o flynyddoedd. Ar gyfer y materion yr ydym wedi'u nodi, beth ddylai fod yn flaenoriaethau i weithredu arnynt yn eich barn chi, a pham?
Rydym wedi casglu tystiolaeth sydd ar gael ar ymyriadau iechyd a diogelwch (e.e. arolygiad, gorfodaeth, cyngor ac ymgyrchoedd) a byddwn yn edrych am fwy. Defnyddiwch y bwlch isod i ddweud wrthym am unrhyw dystiolaeth sydd gennych yngl n ag effeithiolrwydd ymyriadau iechyd a diogelwch – cadarnhaol neu negyddol.
Er mwyn cynyddu rhai pethau mae'n rhaid gwneud llai o bethau eraill. Pa 3 pheth y credwch y dylai HSE roi'r gorau i'w gwneud yn ystod y flwyddyn nesaf, a pham?

Byddwn yn sicrhau bod y sylwadau a dderbyniwn yn anhysbys cyn eu cyhoeddi. Os nad ydych yn dymuno i'ch sylwadau gael eu cyhoeddi, ticiwch y blwch hwn. ☐

Anfonwch eich barn **heb fod yn hwyrach na 1 Rhagfyr 2003** i:
Strategy
Awdurdod Gweithredu Iechyd a Diogelwch Strategy & Intelligence Division
8NW, Rose Court,
2 Southwark Bridge
London SE1 9HS

Neu e-bostiwch eich sylwadau at: sid.consult@Awdurdod Gweithredu Iechyd a Diogelwch.gsi.gov.uk